

17. Mewnosod Fideo

Gellir defnyddio fideos i ychwanegu gwybodaeth ychwanegol a diddordeb i dudalen. Gallwch greu dolen i fideo sydd eisoes ar gael ar-lein, ond yn aml mae'n well mewnosod y fideo yn eich tudalen. Golyga hyn y gall y defnyddiwr weld y fideo a'i wyllo heb adael eich tudalen.

Mae 2 opsiwn ar gyfer mewnosod fideo ar dudalennau Prifysgol Aberystwyth:


1. **[Panopto](#)** – dyma'r system storfa fewnol ar gyfer cipio darlithoedd a fideos. Caiff fideos eu huwchlwytho i Panopto ac yna eu mewnosod i dudalen.
2. **[YouTube](#)** – Mae hi hefyd yn bosibl mewnosod fideo o YouTube. Mae gennym dempled i'ch galluogi i fewnosod fideo ymatebol (sy'n addasu ei faint gan ddibynnu ar faint sgrin y defnyddiwr) sydd wedi'i osod i beidio â chaniatáu i fideos perthnasol gael eu dangos ar y diwedd (i osgoi dolenni amhriodol).
(Noder y gall fideos YouTube gael eu defnyddio yng [nghynnwys y dudalen ragarweiniol](#))

Panopto

Enghraifft

- Mobile Phones
- Printing, Photocopying and Scanning
- Recording Lectures, Presentations and Events
- Sales of Consumables
- Server Hosting
- Staff Network
- Student Network
- Telephony Services
- Video Streaming
- Virtual meetings and online events
- Virtual Private Networking (VPN)
- Web Services
- Webmail
- Wireless Network
- Help and Support
- FAQs
- Feedback
- Services for Students
- Services for Staff
- Services for Researchers
- Services for Visitors
- Contact Us
- Virtual Private Networking (VPN)

Find out more about how [Dr Gareth Evans](#), Lecturer in Theatre and Performance in the [Department of Theatre, Film and Television Studies](#), uses Panopto for making practical work with undergraduate students. If you would like to use Panopto in more innovative ways, get in touch with us.



Paratoi

1. Ewch i safle Panopto – <https://abercast.aber.ac.uk/>.
2. Dewiswch fewngofnodi gan ddefnyddio Blackboard.
3. Mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a chyfrinair arferol.
4. Cliciwch ar **Browse** yn y ddewislen ar y chwith.
5. Gyda'r gwymplen ar '**My folders**', dewch o hyd i'r ffolder briodol ar gyfer uwchlwytho'r fideo iddi.

Noder: os nad oes gennych unrhyw ffolderi, neu os nad oes gennych ffolder addas, bydd angen i chi gysylltu â'r [Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu](#) i ofyn iddynt greu un i chi.

6. Cliciwch ar y botwm **Create** ar frig y sgrin drws nesaf i'r blwch chwilio.
7. Dewiswch '**Upload media**' o'r ddewislen sy'n ymddangos.
8. Llusgwch y fideo o'ch cyfrifiadur i'r ardal a ddynodir ar y sgrin. Neu gallwch glicio yn yr ardal a phori i ddod o hyd i'ch fideo ar eich cyfrifiadur
9. Bydd bar cynnydd yn ymddangos i ddangos cynnydd yr uwchlwytho i chi.
10. Pan fydd yn dweud '**Upload complete. You can close this window now.**' mae'n ddiogel i chi glicio ar y X ar y brig yn y gornel dde i gau'r ffenestr uwchlwytho.
11. Nawr dylech allu gweld eich fideo newydd yn y rhestr. Gan ddibynnu ar faint y fideo, gallai gymryd amser i brosesu. Nes y bydd wedi gorffen prosesu, fe welwch y neges '**Processing**'.
12. Wrth i chi aros, gallwch olygu'r caniatâd rhannu ar gyfer y fideo os oes angen. Mae'r caniatâd diofyn yn cyd-fynd â beth bynnag fo caniatâd eich ffolder. Os hoffech i'r fideo gael ei fewnosod ar y wefan a bod yn weladwy i'r holl ymwelwyr, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr ei fod wedi'i osod i alluogi iddynt ei weld.

- Rhowch eich llygoden dros y fideo ac fe welwch eiconau'n ymddangos – cliciwch ar **Share**.
- Bydd y caniatâd presennol yn cael ei ddangos – cliciwch ar y caniatâd presennol i ddangos cwymplen o'r dewisiadau caniatâd.
- Dewiswch '**Anyone with the link**' i alluogi i'r fideo gael ei fewnosod a'i wylio gan unrhyw ymwelydd â'r wefan.
- Cliciwch ar y botwm **Save changes** ar y gwaelod.
- Cliciwch ar y X ar frig y gornel dde i gau'r ffenestr.

13. Pan fydd eich fideo wedi gorffen prosesu, cliciwch ar ei deitl.

14. Edrychwch ar y cyfeiriad gwe yn y bar cyfeiriad ar frig eich porwr gwe.

Copiwch ddiwedd y cyfeiriad gwe – y rhan ar ôl **id=**. Er enghraifft ar gyfer y cyfeiriad gwe hwn:

<https://abercast.aber.ac.uk/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=488c4dd3-3728-47ca-9fdb-f32e8b2070bb> bydd angen i chi gopïo'r llythrennau a'r rhifau ar ôl **id=**, sef 488c4dd3-3728-47ca-9fdb-f32e8b2070bb.


Noder: Caiff Panopto ei reoli a'i gefnogi gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu – os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio Panopto, cysylltwch â'r [Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu](#).

Mewnosod eich Fideo

1. Agorwch yr adran ble'r hoffech roi'r fideo.
2. Cliciwch ar y tab **Content**.
3. Cliciwch ar y botwm '**Add content**' a dewiswch y templed cynnwys o'r enw "**Panopto Video Embed**".

Noder: Os nad ydych yn gweld y templed cynnwys yn y rhestr, bydd angen i chi [gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth](#) i ofyn iddynt alluogi'r templed angenrheidiol ar gyfer fideos Panopto.

4. Bydd y templed **Panopto Video Embed** yn agor:



The screenshot shows a web interface for creating new content. At the top, it says 'Content > new content'. There are tabs for 'General', 'Content', 'Channels', and 'Options', with 'Content' selected. A green 'Preview' button is in the top right. The main area shows 'Content type : Panopto Video Embed'. Below this are two input fields: 'Name *' with a placeholder 'Enter some text' and a small blue 'A' icon, and 'Panopto ID *' with a placeholder 'Enter some text'. At the bottom right, there are 'Back' and 'Save changes' buttons.


5. Rhwch enw i'ch cynnwys newydd yn y blwch **Name**.
6. Teipiwch neu ludwch ID y fideo Panopto y gwnaethoch ei nodi wrth baratoi yn y blwch **Panopto ID** – e.e. 488c4dd3-3728-47ca-9fdb-f32e8b2070bb.
7. Cliciwch ar y botwm '**Save changes**' i orffen.
8. Efallai y bydd angen i chi aildrefnu'r cynnwys yn eich adran os hoffech i'r fideo ymddangos ar frig y dudalen neu rhwng cynnwys arall. Yn ddiodyn caiff cynnwys newydd ei ychwanegu ar y gwaelod felly bydd yn ymddangos ar ôl cynnwys arall yn y dudalen. Gweler [Taflen Wybodaeth 8](#) i gael rhagor o fanylion ar aildrefnu cynnwys o fewn eich adran.

9. Cofiwch edrych ar ragolwg o'ch tudalen i fod yn siŵr ei bod yn edrych fel yr hoffech ac yna cymeradwywch y dudalen.
10. Ailadroddwch y broses ar gyfer y fersiwn Cymraeg o'ch tudalen.

YouTube

Enghreifftiau

Enghraifft o fideo YouTube ar dudalen 'arferol':



Paratoi


1. Uwchlwythwch eich fideo ar YouTube
2. Pan fydd eich fideo'n barod, ewch i'r dudalen YouTube ar gyfer eich fideo. Bydd y ddolen hon yn cael ei chynnwys yn yr e-bost a gewch pan fydd y fideo'n barod.
3. Nodwch y cod YouTube a ddangosir ar ddiwedd cyfeiriad gwe'r dudalen. Bydd y cyfeiriad gwe'n edrych yn debyg i hyn:
<https://www.youtube.com/watch?v=AR9vEg7IrEk> – bydd arnoch angen y cod ar y diwedd, ar ôl "?v=" – yn yr achos hwn, y cod fyddai AR9vEg7IrEk.

Mewnosod eich Fideo

1. Agorwch yr adran ble'r hoffech roi'r fideo.
2. Cliciwch ar y tab **Content**.
3. Cliciwch ar y botwm **Add Content** a dewiswch y templed cynnwys o'r enw **"YouTube Video"**.

Noder: Os nad ydych chi'n gweld y templed cynnwys hwn yn y rhestr, bydd angen i chi [gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth](#) i ofyn iddynt alluogi'r templedi angenrheidiol ar gyfer eich fideos YouTube.

4. Bydd y templed **YouTube Video** yn agor:



The screenshot shows a web interface for adding content. At the top, it says 'Content > new content'. There are tabs for 'General', 'Content', 'Channels', and 'Options', with 'Content' selected. A 'Preview' button is in the top right. The main area shows 'Content type : YouTube Video'. Below this are three fields: 'Name *' with a text input and a blue 'A' icon; 'YouTube Code *' with a larger text input; and 'Autoplay' with a checkbox and the text 'Yes'. At the bottom right, there are 'Back' and 'Save changes' buttons.

5. Rhwch enw ar gyfer eich cynnwys newydd yn y blwch **Name**.
6. Teipiwch neu ludwch y cod ar gyfer y fideo YouTube y gwnaethoch ei nodi wrth baratoi yn y blwch '**YouTube Code**' – e.e. AR9vEg7IrEk.
7. Os hoffech i'r fideo ddechrau chwarae pan fydd y defnyddiwr yn agor y weddalen, ticiwch y blwch **Yes** yn yr opsiwn **Autoplay**.
8. Cliciwch ar y botwm **Add** i orffen.
9. Mae'n bosibl y bydd angen i chi aildrefnu'r cynnwys yn eich adran os hoffech i'ch fideo ymddangos ar frig y dudalen neu rhwng cynnwys arall. Yn ddiodyn, caiff cynnwys newydd ei ychwanegu ar y gwaelod felly bydd yn ymddangos ar ôl cynnwys arall yn y dudalen. Gweler [Taflen Wybodaeth 8](#) i gael rhagor o wybodaeth am aildrefnu cynnwys o fewn eich adran.
10. Cofiwch edrych ar ragolwg o'ch tudalen i fod yn siŵr ei bod yn edrych fel yr hoffech, ac yna cymeradwywch y dudalen.
11. Ailadroddwch y broses ar gyfer y fersiwn Cymraeg o'ch tudalen.